*Ymateb i Adolygiad Thematig Estyn o Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3*

*Libby Jones,* Cadeirydd y Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (NAPfRE)

Ar ran NAPfRE hoffwn ddiolch i Estyn am yr adroddiad hwn, am ymateb i'r cais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn yn 2017-2018, ac am yr argymhellion mae'n ei gynnig i ysgolion, CYSAGau a Llywodraeth Cymru, o fewn yr adroddiad.

Cytunodd Aelodau mai ychydig o'r argymhellion o fewn yr adroddiad sydd wedi peri syndod. Roedd Aelodau'n eu hystyried yn deg ac maent yn cefnogi'r achos dros well cyfleoedd dysgu proffesiynol i Addysg Grefyddol, mwy o gefnogaeth i Addysg Grefyddol mewn ysgolion gan CYSAGau, a sefyllfa gryfach i Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd.

Roedd Aelodau'n teimlo bod yr adroddiad yn dangos delwedd gweddol bositif o Addysg Grefyddol yn y 47 ysgol lle casglwyd y dystiolaeth uniongyrchol. Fodd bynnag, holodd rhai aelodau a yw'r ddelwedd 'bositif' hon yn adlewyrchu'r gwir ddarlun ar draws pob ysgol yng Nghymru. Mae tystiolaeth anecdotaidd a rannwyd gan CYSAGau a gweithwyr proffesiynol Addysg Grefyddol mewn cyfarfodydd NAPfRE yn awgrymu'n groes i hynny.

Roedd Aelodau yn falch o sylwi bod holl ofynion y sylabws a gytunwyd arno'n lleol yn cael eu cynnwys mewn ysgolion lle mae cynllunio cwricwlwm yn dda, a bod hyn yn wir mewn sawl ysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn y rhan fwyaf o ysgolion yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae hyn yn awgrymu diffyg yn yr ysgolion nad ydynt yn cynllunio yn dda ar gyfer Addysg Grefyddol allan o'r 47 ysgol lle casglwyd tystiolaeth. Cwestiynodd Aelodau beth yw goblygiadau hyn ar gyfer Addysg Grefyddol yn ehangach ar draws Cymru.

Roedd Aelodau'n falch o nodi bod safonau Addysg Grefyddol yn y 47 ysgol yn gyffredinol dda a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda gydag amrywiaeth eang o gwestiynau dynol a chrefyddol. Teimlwyd bod diffyg her ar gyfer disgyblion mwy abl yng Nghyfnod Allweddol 2 a bod cynllunio ar gyfer symud rhwng CA2 a CA3 mewn Addysg Grefyddol yn broblemau sy'n gyffredin i bynciau ar draws y cwricwlwm

Roedd Aelodau'n falch o ddysgu bod arweinyddiaeth addysg grefyddol yn gyffredinol dda, ac yn y rhan fwyaf o'r 47 ysgol, bod aelodau wedi ystyried newidiadau i ddysgu addysg grefyddol o ganlyniad i'r cynigion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag roedd aelodau yn bryderus iawn bod newidiadau yn cael eu gwneud i ddysgu Addysg Grefyddol eisoes mewn rhai ysgolion ar draws Cymru, o dan arweiniad Penaethiaid ac / neu arweinwyr Y Dyniaethau nad oes ganddynt arbenigedd mewn Addysg Grefyddol, ac sydd yn amlwg wedi camddehongli'r cynigion. Mae llawer o athrawon wedi rhannu eu pryderon gydag aelodau NAPfRE am ddyfodol Addysg

Grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd yn eu hysgol, o ganlyniad i'r newidiadau cyn pryd yma sydd wedi eu camfarnu.

O safbwynt yr argymhellion a gynigir yn yr adroddiad, roedd aelodau yn teimlo bod rhai ohonynt yn golygu goblygiadau ariannol i ysgolion ac Awdurdodau Lleol. Er enghraifft, ar gyfer dysgu proffesiynol mewn Addysg Grefyddol a mentrau PREVENT ac ati. Roedd yr argymhelliad ynglŷn a 'lleoedd addoli a gymeradwywyd' hefyd yn destun pryder i aelodau. Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau â rhestr o leoedd addoli lleol, ond byddai eu 'cymeradwyo' yn amhosib. Pwy fyddai'n cymeradwyo? Yn seiliedig ar ba feini prawf? Pa mor aml? Onid rôl yr ysgol unigol yw ceisio asesiad risg ac ati. Mae aelodau'n teimlo fod angen egluro'r frawddeg hon.

Mae aelodau'n falch bod yr adroddiad yn cynnig enghreifftiau o arfer da, ond mae rhai aelodau'n cwestiynu ansawdd yr arfer orau sydd wedi ei rannu, ac roedd aelodau'n rhybuddio'n erbyn cynnwys mwy o enghreifftiau'n ymwneud â dinasyddiaeth. Cytunodd aelodau bod yr adroddiad wedi ei ddarparu â'r cwricwlwm newydd mewn golwg ac efallai nad oedd yn adlewyrchu'n llwyr yr arferion gwych sy'n digwydd o fewn Addysg Grefyddol, yn benodol o fewn Cymru.

Sylwodd Aelodau bod nifer o gyfeiriadau'n cael eu gwneud yn yr adroddiad at addoli ar y cyd a chwestiynwyd pam fod y rhain wedi eu cynnwys. Mae addysg grefyddol ar wahân ac yn wahanol i addoli ar y cyd a byddai aelodau'n rhybuddio'n erbyn cyfeirio at y ddwy agwedd gyda'i gilydd er mwyn osgoi dryswch.

Yn olaf, nododd aelodau bod o leiaf un ysgol fu'n rhan o'r broses heb eu cydnabod yn yr adroddiad terfynol, a chododd y mater y gallai hynny fod wedi digwydd i eraill hefyd. Roedd Aelodau'n teimlo y dylai pob ysgol gael cydnabyddiaeth llawn ar ôl cymryd rhan os ydynt wedi cyfrannu, ym mha bynnag gapasiti, ac ar ba bynnag gam o'r broses.

Libby Jones
Cadeirydd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol.
Cynghorydd Addysg Grefyddol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ionawr 2019